**PWYLLGOR CYSAG CYNGOR SIR Y FFLINT**
**16 Mehefin 2021**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor CYSAG Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd trwy gyfrwng Webex ar 16 Mehefin 2021.

**HEFYD YN BRESENNOL:**

**Aelodau Etholedig:**
Cyng. Chris Bithell (CB) (Cadeirydd); Cyng. Ian Roberts; Cyng. Dave Mackie (DM); Cyng. Colin Legg (CL); Cyng. Paul Cunningham (PC); Cyng. Janet Axworthy (JA); Cyng. Adele Davies-Cooke(ADC); Cyng. Marion Bateman(MB)

**Cynrychiolwyr Addysg**
Vicky Barlow (VB) Uwch Reolwr Gwella Ysgolion; Jane Borthwick – Cynghorydd Gwella Ysgolion (JB)

**Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru (Esgobaeth Llanelwy)** - Marina Parsons (Pennaeth Trelawnyd) (MP)

**Eglwys Bresbyteraidd Cymru** – Y Parch. Huw Powell Davies (HD)

**Cymdeithasau Athrawon:**
Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd – Simon Piercy (SP) (Ysgol Golftyn)

Hefyd yn bresennol – Kim Brookes, Uwch Reolwr, Addysg ac Ieuenctid (Clerc)

Croesawodd Cyng. B bawb i'r cyfarfod. Yn sgil anawsterau technegol, nid oedd i'n bosibl i ffrydio'r cyfarfod yn fyw, ond byddai recordiad o'r cyfarfod ar gael ar y diwedd.

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Lyn Oakes; Amira Mattar; Wendy White; John Morgan; Claire Homard.

## 2. DATGAN CYSYLLTIAD: COD YMDDYGIAD LLYWODRAETH LEOL

Dim wedi eu datgan.

## 3. Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2021.

Cynigiwyd gan DM, eiliwyd gan JA a derbyniwyd eu bod yn gofnod cywir.

Materion yn codi: Dim

4. **<u>DERBYN DIWEDDARIAD AM Y CYFARFOD CCYSAGC A GYNHALIWYD AR 23 MAWRTH 2021</u>**

Diolchodd CB i JA, DM a LO am fynychu'r cyfarfod ar ran Sir y Fflint. Diolchodd DM i VB am ei hadroddiad gwych. Dywedodd VB bod papurau'r cyfarfod ar gael ar wefan CCYSAGC. Y prif bwyntiau trafod oedd symud o faes llafur Addysg Grefyddol i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg; dull cydlynol gyda Llywodraeth Cymru at ddatblygiad proffesiynol ar gyfer ymarferwyr; newidiadau i gyfansoddiadau CYSAG ac ymgynghori ar feysydd llafur yn lleol. Diolchodd JA hefyd i VB a gofynnodd bod y cyfarfod yn cofnodi y bydd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y flwyddyn nesaf yn cael ei gynnal gan Sir y Fflint.

**Cam Gweithredu:** VB i anfon dolen at y grŵp i wefan CYSAGC.

5. **YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR GANLLAWIAU CWRICWLWM I GYMRU YNGHYLCH CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG**

Cyfeiriodd VB at yr adroddiad ymgynghoriad a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen oedd wedi symud ymlaen o'r fersiwn ddrafft blaenorol a gynhyrchwyd ym mis Ebrill. Dywedodd hefyd mai bwriad Llywodraeth Cymru oedd cynnig gweithdai ar y ddogfen. Wrth adolygu'r ddogfen gofynnodd i'r grŵp gofio am y canlynol:

- Ydym ni'n gwbl eglur am y gynulleidfa a'r pwrpas?
- Ydi'r iaith a therminoleg yn briodol?
- Ymagwedd at ddatblygiad proffesiynol – sut mae hyn yn helpu ymarferwyr?
- Ydi hi'n amlwg beth yw rôl CYSAG wrth symud ymlaen?

Barn y grŵp yw y byddai'n ddefnyddiol cynnal gweithdy er mwyn trafod a pharatoi ein hymateb i'r Ymgynghoriad. Gofynnodd PC bod Cyfarwyddwyr Esgobaeth yn cael eu gwahodd i fynychu'r gweithdy hefyd.

**Cam Gweithredu:** VB i drefnu gweithdy gydag aelodau mewn digon o amser i lunio ein hymateb erbyn 16 Gorffennaf.

6. **GOHEBIAETH**

Dim.

7. **CYFARFODYDD I DDOD**

Dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol:

Dydd Iau 7 Hydref 2021
Dydd Iau 25 Tachwedd 2021
Dydd Mercher 9 Chwefror 2022
Dydd Mercher 8 Mehefin 2022

Daeth y cyfarfod i ben am 16.32pm